



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod y Bwrdd
a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2023
yn electronig drwy Microsoft Teams ac wedi'i ffrydio'n fyw ar y we**

Yn Bresennol:		
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Sumina Azam	(SA)	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol WHO ar gyfer Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwyr Anweithredol (Prifysgol)
Kate Eden	(KE)	Cyfarwyddwr Anweithredol, Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
Dyfed Edwards	(DE)	Cyfarwyddwr Gweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Chyfleusterau Digidol)
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid
Sian Griffiths	(SG)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd Cyhoeddus)
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Mohammed Mehmet	(MM)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol)
Rhiannon Beaumont-Wood	(RB-W)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Kate Young	(KY)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Y Trydydd Sector)
Hefyd yn Bresennol:		
John Boulton	(JB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru

Liz Blayney	(LB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd Dros Dro
Ben Brown	(BB)	Llywodraeth Cymru (Ar gyfer Eitem 3)
Angela Cook	(AC)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd, Nyrso a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol
Felicity Hamer	(FH)	Pennaeth Strategaeth ac Arloesi, Gwelliant Cymru (hyd at a chan gynnwys Eitem 3)
Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl
Mark Madams	(MMa)	Llywodraeth Cymru (Ar gyfer Eitem 3)
Eluned Morgan	(EM)	Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Ar gyfer Eitem 6)
Claire Sullivan	(CS)	Cynrychiolydd Staff
Cathy Weatherup	(CW)	Cynghorydd Polisi Iechyd Cyhoeddus i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Ar gyfer Eitem 3)
Stephanie Wilkins	(SW)	Cynrychiolydd y Fforwm Partneriaeth Staff
Ymddiheuriad		
Verity Winn	(VW)	Arweinydd Archwilio (Perfformiad), Archwilio Cymru

Dechreuodd y cyfarfod am 10am

ICC 1/2023.01.26	Croeso ac Ymddiheuriadau
Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod, gan estyn croeso cynnes i'r rhai a oedd yn gwylio'r cyfarfod ar-lein. Crynhodd rôl y Bwrdd fel Corff Llywodraethu'r sefydliad, gyda chyfrifoldebau penodol am: bennu cyfeiriad strategol; creu a chynnal partneriaethau strategol; pennu archwaeth risg a goruchwylio risgiau strategol; craffu ar berfformiad yn ystod y flwyddyn yn erbyn cynlluniau; cynnal trefniadau llywodraethu da a phennu naws a diwylliant y sefydliad. Wrth drafod naws a diwylliant y sefydliad, mabwysiadodd y Bwrdd ddiwylliant dysgu, lle y gallai pawb ddod i'r gwaith a bod yn nhw eu hunain ar eu gorau, heb ofni gwahaniaethau neu anfantais o unrhyw fath, gan gynnwys unrhyw ymddygiadau gwrthwynebus tuag atynt. Cynhaliodd y Bwrdd ei fusnes yn unol ag ymddygiad ffurfiol y Bwrdd, y mae ei fanylion i'w gweld ar y wefan; hellir gweld y ddogfen ymddygiad ar wefan y Bwrdd: https://icc.gig.cymru/amdanom-ni/y-bwrdd-ar-tim-gweithredol/y-bwrdd-ar-tim-gweithredol/board-etiquette/. Mae hyn yn cyfeirio at ddarllen yr holl bapurau cyn y cyfarfod, a gwneud y mwyaf o'r amser sydd ar gael i drafod ar y diwrnod. Glynodd y Bwrdd hefyd at Werthoedd Iechyd	

Cyhoeddus Cymru: Cydweithio gydag Ymddiriedaeth a Pharch er mwyn Gwneud Gwahaniaeth.

Crynhodd JW fusnes y cyfarfod, gan nodi y byddai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymuno â'r cyfarfod am 11:45am.

Gorffennodd drwy estyn croeso cynnes i Ben Brown a Mark Madams, swyddogion Llywodraeth Cymru, a oedd yn bresennol i gyflwyno'r eitem ar Ddyletswydd Ansawdd a Dyletswydd Didwylledd.

Nododd y Bwrdd yr **ymddiheuriad** gan Verity Winn, Archwilio Cymru.

ICC 2/2023.01.26 Datgan Buddiannau

Ni wnaeth aelodau'r Bwrdd ddatgan unrhyw fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

ICC 3/2023.01.26 Partneriaeth Strategol / Dyletswydd Ansawdd & Didwylledd

Fe wnaeth JW wahodd Ben Brown a Mark Madams i roi eu cyflwyniad ar y Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Didwylledd, sef dwy ddyletswydd a fyddai'n dod i rym ym 1 Ebrill 2023. Defnyddiodd BB ac MM gyflwyniad sleidiau i amlinellu diben pob dyletswydd, gan grynhoi'r ymatebion i broses ymgynghori ddiweddar ac amlygu'r prif oblygiadau. Dywedasant:

- Bod dyletswyddau'n gymwys nid yn unig i holl gyrff y GIG ond hefyd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Y nod oedd ysgogi dull system gyfan o wella ansawdd a, chan adeiladu ar dryloywder, hysbysu'r rhai a oedd wedi profi niwed neu a oedd mewn perygl o niwed yn llawn;
- Mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn cwmpasu chwe maes ansawdd a bydd yn disodli'r Safonau Iechyd a Gofal eleni;
- Cyflwynodd y Ddyletswydd Gonestrwydd gam newydd yn y broses *Gweithio i Wella* ac mae'n cynnwys cyswllt personol, ac yna ymddiheuriad ysgrifenedig;
- Daeth y broses ymgynghori ddiweddar i ben ar 13 Rhagfyr 2022; roedd ymatebion yn cael eu hystyried, cyn unrhyw benderfyniad terfynol ar ddiwygio prosesau;
- Y bwriad yw cynnal ymgych ymwybyddiaeth gyhoeddus ym mis Mawrth 2023.

Diolchodd JW i BB ac MM am eu cyflwyniad addysgiadol a gwahoddodd yr aelodau i ofyn cwestiynau:

- Nododd RBW i Iechyd Cyhoeddus Cymru gyfrannu at Fwrdd Gweithredu Cymru Gyfan, a rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd fod y sefydliad ar y trywydd

cywir i gydymffurfio'n llawn. Dywedodd fod angen eglurder o ran cyrff a gynhelir neu swyddogaethau sy'n arbennig o berthnasol, gan fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal nifer o'r rhain. Soniodd BB am y bwriad i'r perwyl hwn.

- Croesawodd KY gyflwyniad y ddwy ddyletswydd. Dywedodd fod angen ystyried anableddau a chhydraddoldeb a gofynnodd a fu unrhyw gyfathrebu ac ymgysylltu gyda grwpiau sy'n agored i niwed, a allai gynnwys pobl y mae angen teilwra'r ffordd o weithio ar eu cyfer. Cadarnhaodd MM fod ymgysylltu wedi bod ac y rhoddwyd ystyriaeth i hyn, gan ychwanegu bod y Ddyletswydd Didwylledd yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ymateb i unigolyn ym mha bynnag fodd y mae'r unigolyn hwnnw'n ei ffafrio, gan atgyfnerthu diwylliant cynhwysedd. Dywedodd hefyd y byddai dysgu arferion o Loegr hefyd yn hwyluso'r gwaith o weithredu hyn.
- Gofynnodd DE sut y byddai'r dyletswyddau hyn wella ar brofiad defnyddwyr. Dywedodd BB y byddai hyn yn digwydd drwy weithredu'r nodau troswaol, sef gwella tegwch ac effeithlonrwydd ac atal niwed pellach.
- Nododd KE fod angen sicrhau bod y gofynion yn alinio gyda Strategaeth Trefniadaeth ac Ansawdd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gofynnodd am y mesurau a gynigiwyd i ddeall effeithiau'r ddeddfwriaeth a'r gwahaniaeth a wnaeth y dyletswyddau i brofiad defnyddwyr. Cadarnhaodd BB fod y gwaith o ddatblygu modiwlau wedi cynnwys gwaith gwerthuso, ac y byddai Gweithrediaeth arfaethedig y GIG yn goruchwyllo'r effaith a'r canlyniadau.
- Diolchodd TC i BB a MB am eu cyflwyniad, a nododd nifer o bwyntiau allweddol i'r sefydliad:
 - Pa mor hanfodol oedd ymgysylltu'n gynnar a systemau cyfathrebu effeithiol wrth ymateb i fater;
 - Sefyllfa unigryw Iechyd Cyhoeddus Cymru fel sefydliad a oedd yn comisiynu, darparu a chynnal gwasanaethau, a hefyd yn rhoi cyngor i'r Llywodraeth, partneriaid a'r system ehangach.

Diolchodd JW ar ran y Bwrdd i BB a MM am eu cyflwyniad addysgiadol a'u hymatebion i'r cwestiynau a'r sylwadau a ddilynodd.

Nododd y Bwrdd y ffaith i'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Didwylledd gael eu cyflwyno; **roedd yn falch o gael sicrwydd** o gadarnhad RBW bod y sefydliad yn barod i ymateb yn ôl y galw, a **chadarnhau** rôl Pwyllgorau'r Bwrdd wrth oruchwyllo'r broses o weithredu.

ICC 4/2022.11.24 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

ICC 4.1/2023.01.26 Adroddiad y Prif Weithredwr

Wrth gyflwyno Adroddiad y Prif Weithredwr, tynnodd TC sylw at y materion a ganlyn:

- Y dyddiad disgwyledig, sef 27 Ionawr, ar gyfer cyflwyniadau ar gyfer Modiwl 1 ar gyfer Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19 y DU; mynegodd TC ei diolch i'r tîm Ymchwiliadau Cyhoeddus am eu gwaith caled wrth goladu a pharatoi'r wybodaeth;

- Y ffaith bod Fforwm Bwrdd Partneriaeth Llysgenhadon Ifanc wrthi'n cael ei ddatblygu, gan wahodd RBW i roi rhagor o fanylion. Crynhodd RBW y cyfarfod cyntaf: bu hyn yn llwyddiant, gyda'r pwyslais ar ddatblygu sgiliau cyfathrebu, ynghyd â ffocws ar dri maes allweddol iechyd cyhoeddus – yr argyfwng costau byw, y pethau ehangach sy'n effeithio ar iechyd, ac ymddygiadau iach. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Chwefror, ac fe wnaeth RBW estyn gwahoddiad i holl Gyfarwyddwyr y Bwrdd.

Croesawodd KE lansiad y model partneriaeth newydd, a nododd gyda diddordeb y tri maes allweddol a nodwyd; cyfeiriodd eto at fater a godwyd yn gynharach, sef y dylid cael cynrychiolaeth briodol o bob cwr o Gymru. Gofynnodd KE hefyd am fewnbwn gan bartneriaid llywodraeth leol. Cadarnhaodd RBW fod y model yn ymestyn ar hyd Cymru gyfan, ynghyd â'r darpariaethau sydd ar waith i ymgysylltu â phartneriaid llywodraeth leol ledled Cymru, a'r rhesymeg dros fwrw ymlaen gyda'r sawl sydd ar gael ar gyfer y cyfarfod cyntaf. Bydd cyfarfodydd yn y dyfodol yn cael eu cynnal mewn lleoliadau yng Ngogledd a Gorllewin Cymru.

Camau Gweithredu: RBW

Cafodd RBW a'i thîm eu canmol gan DC a SG am eu gwaith gyda Llysgenhadon Ifanc Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac am lansio'r model partneriaeth newydd mor llwyddiannus. Roedd DC yn bresennol yn y cyfarfod, a soniodd mor werthfawr oedd clywed gan bobl ifanc yr oedd eu profiad byw yn wahanol iawn i un Cyfarwyddwyr y Bwrdd.

- Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Cymdeithas Ryngwladol y Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (IANPHI) yn Stockholm o 30 Tachwedd tan 2 Rhagfyr 2022. Hwn oedd y cyfarfod blynyddol cyntaf a oedd yn bennaf wyneb yn wyneb ar gyfer IANPHI ers pandemig y Coronafeirws. Roedd TC yn bresennol yn y cyfarfod, ynghyd â MK ac AJ, gan rannu profiadau â chydweithwyr mewn Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (NPHIs) ledled y byd
- Ychwanegodd MK fanylion am y gefnogaeth a ddarperir i Wcráin, a chynnwys digwyddiad penodol yng nghyfarfod IANPHI ar hyn, i nodi a chydlynu'r cynnig cyfunol o gefnogaeth i Ganolfan Iechyd Cyhoeddus Wcráin. Y prif faterion a ystyriwyd oedd: cydlynu canllawiau ar bynciau arbenigol megis ymwrthedd gwrthficrobaidd; hyfforddiant ac ymarfer corff sy'n gysylltiedig â bygythiadau Cemegol, Biolegol, Radiolegol a Niwclear (CBRN); ac offer i gynorthwyo lefel ranbarthol y Canolfannau Ymateb Brys. Roedd trafodaethau'n parhau ynglŷn â'r ffordd orau o gydlynu'r gefnogaeth a chynnig cymorth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar dair elfen allweddol: ymwrthedd gwrthficrobaidd drwy rannu canllawiau a dogfennau eraill; Hyfforddiant CBRN; a rhannu arbenigedd ynghylch cymorth gwybodus trawma.

Nododd y Bwrdd Adroddiad y Prif Weithredwr a **chafodd sicrwydd** o'r cynnwys a'r trafodaethau dilynol.

ICC 4.2/2023.01.26**Adroddiad Integredig ar Berfformiad**

Cyflwynodd HG yr eitem hon, ac wrth fyfyrio ar y broses adrodd arferol, gwahoddodd bob arweinydd gweithredol i roi diweddariad i'r Bwrdd.

Cyfeiriodd NL at elfen y gweithlu o'r Adroddiad Perfformiad, a thynnodd sylw at:

- Cynnydd mewn lefelau salwch ac absenoldeb ym mis Rhagfyr, yn enwedig o fewn microbiolog, gwasanaethau sgrinio a Chydweithrediaeth y GIG;
- Gwelliant mewn cydymffurfiaeth arfarnu ac mewn hyfforddiant statudol a gorfodol;
- Fel y nodwyd yn yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynnyddol, gwelwyd cynnydd cadarnhaol mewn cynrychiolaeth LHDT a Phobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar draws y sefydliad.
- Soniodd HG am ragor o fanylion am y trefniadau adrodd yn y dyfodol ar gyfer cyfraddau gweithlu Cydweithrediaeth y GIG. Byddai'r swyddogaeth hon yn cael ei throsglwyddo i Weithrediaeth y GIG ar 1 Ebrill 2023, ac ni fyddai Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu'r data o'r pwynt hwnnw ymlaen.

Gofynnodd HG a oedd unrhyw gwestiynau:

Nododd MM y cynnydd yn y lefelau salwch ac absenoldeb, yn enwedig y meysydd microbiolog a sgrinio. Roedd hyn yn mynd yn groes i'r tueddiadau dros y misoedd blaenorol, a gofynnodd MM am fanylion pellach am yr effaith ar y gwasanaeth, ynghyd ag unrhyw gamau sydd eu hangen mewn perthynas â lles staff. Dywedodd MK y gofynnwyd i staff beidio â mynd i'r gwaith os oedd ganddynt unrhyw symptomau a allai fod yn salwch heintus; roedd hyn yn deillio o'u cysylltiad agos â chymunedau a'r risg o ledaeniad. Nododd fod y gyfradd uchaf o salwch ac absenoldeb i'w weld yng ngwasanaeth Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW) a'r rhesymau dros salwch oedd gorbryder, iselder a salwch anadlol. Cadarnhaodd pa gefnogaeth a chymorth oedd yn cael ei roi i staff, yn unol â darpariaethau llesiant sefydledig. Roedd cynlluniau parhad busnes cadarn ar waith hefyd. Dywedodd NL fod cynnydd tebyg wedi bod mewn cyfraddau ddiwedd Rhagfyr/dechrau Ionawr y llynedd, ond bod y rheiny wedi dychwelyd i'r lefelau arferol ac roedd yn edrych fel pe bai'r patrwm hwnnw'n ailadrodd ei hun.

Wrth drafod materion ariannol, soniodd HG am y prif faterion a ganlyn:

- Y sefyllfa ddiwedd y flwyddyn 2022/23 – atgoffodd y Bwrdd am y rhagamcan fantoli'r gyllideb ar ddechrau'r flwyddyn; roedd hyn yn ddarostyngedig i adolygiad manwl bob mis, ac roedd HG yn dal i fod yn hyderus y byddai hyn yn cael ei gyflawni;
- Cyfraniad Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynorthwyo GIG Cymru gyda'i sefyllfa ariannol, yn seiliedig ar enillion ffortunos, gan gynnwys cyfraddau llog a thaliadau pensiwn. Roedd cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru'n gwerthfawrogi'r gefnogaeth hon ar lefel y system;
- Y sefyllfa o ran dyraniad cyfalaf. Nododd HG fod y dyraniad cyfalaf yn cynnwys dwy elfen - cyfalaf dewisol, wedi'i ddyrannu i adnewyddu offer neu brynu offer hanfodol, a chyllid Cymru gyfan; gallai hyn rychwantu

blynyddoedd ariannol, yn dilyn ceisiadau llwyddiannus i Lywodraeth Cymru. Roedd gwerth y dyraniad cyfalaf dewisol y tu hwnt i reolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru. Atgoffodd HG y Bwrdd fod y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cynnwys adran ar gyfalaf, fel bod Llywodraeth Cymru, mewn unrhyw flwyddyn, yn ymwybodol o sefyllfa cyfalaf Iechyd Cyhoeddus Cymru;

- Paratoi ar gyfer sefyllfa ariannol 2023/24. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r llythyr dyraniadau, ond roedd trafodaethau'n dal i fynd rhagddynt ar agweddau penodol, gan gynnwys arian ar gyfer adfer gwasanaethau sgrinio;
- O ran cyllid mewn perthynas â COVID-19, soniodd HG am y darpariaethau i sicrhau'r cyllid hwn gan y ganolfan;
- Roedd Llywodraeth Cymru wedi gosod gofyniad arbedion effeithlonrwydd 2023/24 o 2.5%. Pan gafodd ei ystyried fel rhan o'r sefyllfa ariannol ehangach, roedd hyn yn cyflwyno her i GIG Cymru.

Gofynnodd HG a oedd unrhyw gwestiynau:

Gofynnodd NE gwestiwn am drosglwyddo arian cyfalaf i DHCW; eglurodd HG fod hyn yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am ddwy system - LINC a RISP - i DHCW, o Gydweithrediaeth y GIG, cyn trosglwyddo'r RISP i Weithrediaeth y GIG.

Yna, gofynnodd HG i MK roi diweddariad, ac amlygodd:

- Y sefyllfa bresennol o ran COVID-19. Roedd yna ostyngiad bach ddechrau Ionawr, yn dilyn cyfnod brig ym mis Rhagfyr, gyda 1:19 o bobl bellach yn meddwl bod ganddyn nhw COVID-19. Nid oedd yr amrywiolyn amlycaf presennol, sef BQ1, wedi arwain at gynnydd yn y nifer a aeth i'r ysbyty, ac roedd y nifer hwn yn parhau i ostwng. Roedd gwaith monitro gofalus yn parhau o bob proffil o'r amrywiolyn.
- Clefydau heintus eraill: roedd Strep A wedi arwain at bwysau ar y system ym mis Rhagfyr, ond wrth gadw llygad ar hyn gwelwyd gostyngiad dilynol mewn ymgynghoriadau a niferoedd achosion Strep A a gadarnhawyd. Roedd achosion brech y mwncïod yn parhau i leihau'n sylweddol, gydag adroddiadau o ddau achos yn y tri mis diwethaf.
- O ran y gwasanaethau sgrinio, atgoffodd MK y Bwrdd o'i ddiweddariadau drwy gydol y flwyddyn, wrth iddo adrodd ar adfer rhaglen Sgrinio Coluddion Cymru a'r rhaglen Sgrinio Serfigol. Yna, canolbwyntiodd ar adfer y tair rhaglen ganlynol: ymlediad aortaidd yn yr abdomen (AAA); Bron Brawf Cymru (BTW); a Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW). Byddai AAA yn gwella erbyn diwedd mis Mawrth 2023, gyda thaflwybrau hirach ar gyfer BTW a DESW. Aeth MK ymlaen i amlinellu'r trafferthion sy'n gysylltiedig â phob un, gan gynnwys mwy o alw, argaeledd lleoliadau a'r gwaith trawsnewid gwasanaethau sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

Wedyn, cafodd KE, fel Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella (QSIC) ei wahodd gan JW i roi diweddariad ar rôl goruchwylio a chraffu'r Pwyllgor, fel y'i rhyddhawyd trwy gydol 2022/23 a'r blynyddoedd blaenorol.

Cadarnhaodd KE fod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella wedi chwarae rôl allweddol yn adferiad rhaglenni sgrinio dros y tair blynedd diwethaf; canmolodd yr ymdrechion sylweddol yr oedd staff wedi'u gwneud i sicrhau adferiad llawn yn y Rhaglen Sgrinio Serfigol a Rhaglen Sgrinio'r Coluddyn. Yn ystod 2022 roedd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella wedi cynnal:

- Archwiliad manwl o BTW, DESW ac AAA; cadarnhaodd eto fod disgwyl adfer y rhaglen AAA o fewn y ddau fis nesaf;
- Gwaith craffu ar y newid i gyfnodau Sgrinio Serfigol a gyflwynwyd ar 1 Ionawr 2022, a'r gwersi a ddysgwyd o hynny;
- Ymweliad safle â Pharc Magden ym mis Rhagfyr 2022, i gwrdd â thimau sgrinio ac i glywed diweddariadau gan Sharon Hillier, y Cyfarwyddwr Sgrinio;
- Dadansoddiad manwl o'r llwybrau adfer, gan ganolbwyntio ar risgiau a materion yn ymwneud â thegwch

Nododd KE nad dim ond mater o ailgychwyn y systemau a'r prosesau a oedd yn weithredol cyn y pandemig oedd ystyr adfer; roedd yn rhaid i gynlluniau ar gyfer y dyfodol ystyried y twf ar draws y rhaglenni sgrinio, materion cynaliadwyedd yn sgil heriau'r gweithlu, y cyfleoedd a gyflwynir yn sgil defnyddio technoleg yn ehangach a mwy o olion traed 'Stryd Fawr'. Roedd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella wedi nodi'r holl faterion hyn i'w cynnwys wrth adnewyddu'r Strategaeth Hirdymor.

Cyfeiriodd KE hefyd at yr angen am drawsnewid, fel sydd ar y gweill ar hyn o bryd ar draws rhaglen DESW. Ychwanegodd IB fanylion am hyn, gan amlinellu sail y rhaglen drawsnewidiol, gyda'r symud yn y flwyddyn drwy'r cyfnod Canfod i gyfnod Alfa o fethodoleg y rhaglen. Crynhodd y ddadl yn y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Gwybodaeth (KRIC) a chynghorodd fod dadansoddiad manwl yn cael ei wneud o ran gormodedd y ffigyrau marwolaethau. Byddai hyn yn ystyried y rhesymau dros fwy o farwolaethau gormodol o ddiabetes, er bod y niferoedd yn fach. O ystyried y diddordeb mewn diabetes a'r effaith ehangach ar Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru, byddai KRIC hefyd yn edrych ar ddadansoddiad ehangach o dueddiadau mewn diabetes ac yn adrodd yn ôl ar y canfyddiadau erbyn cyfarfod Bwrdd Mawrth 2023.

Camau Gweithredu: IB

Yna, tynnodd MK sylw'r Bwrdd at gynnwys yr Adroddiad Perfformiad ar yr heriau presennol sy'n wynebu gwahanol raglenni sgrinio, gan gynnwys yr angen i ymateb i streicio a'r oedi dilynol yn y system bost a oedd yn peri risg o effaith andwyol ar samplau sgrinio sy'n amser-gritigol. Crynhodd y trefniadau a'r camau ychwanegol a roddwyd ar waith i liniaru yn erbyn yr heriau hyn.

Gofynnodd HG a oedd unrhyw gwestiynau:

Croesawodd MM y diweddariad a'r sicrwydd a ddarparwyd. Gofynnodd gwestiwn am gynllunio'r gweithlu yng nghyfarwyddiaeth MK, yn enwedig ar gyfer rolau allweddol lle'r oedd recriwtio yn profi'n heriol. Soniodd MK am y trafodaethau rheolaidd gyda Gwella Addysg Iechyd Cymru i geisio mynd i'r afael â phrinder staff clinigol allweddol; roedd hyn yn cynnwys ystyried y posibilrwydd o ymestyn y gweithlu ar lefel cyswllt fel ateb posibl, y tu allan i raglenni mwy traddodiadol y gweithlu. Byddai hyn yn cynnwys fframweithiau cymhwysedd i roi sicrwydd o ran gwasanaethau diogel ac effeithiol. Roedd MK wedi cwrdd â'r arweinwyr Proffesiynau Perthynol i Iechyd (AHP) i ystyried y ffordd orau o optimeiddio cyfleoedd a gwneud y defnydd gorau o'r gweithlu sydd ar gael.

Soniodd JW am y cyfle a gyflwynir ym mis Ebrill 2023, gyda'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol (POD) yn bwriadu canolbwyntio ar gynllunio'r gweithlu. Gallai ymgysylltu â thrawstoriad o bwyllgorau i sicrhau bod holl heriau'r gweithlu ar draws gwasanaethau yn cael eu mapio.

Camau Gweithredu: MM/NL

Gofynnodd KY a oedd rôl bosibl i wasanaethau'r Trydydd Sector weithio ochr yn ochr â rhaglenni sgrinio a manteisio ar gyfleoedd i gyfathrebu a rhannu gwasanaethau a chefnogi'r rhai sy'n cael eu sgrinio; cytunodd MK a chadarnhaodd y byddai'n ystyried hyn ymhellach.

Camau Gweithredu: MK

Soniodd RBW am gyfarfod diweddar gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGCC). Byddai hyn yn gatalydd ar gyfer dull mwy strategol o weithio mewn partneriaeth â'r Trydydd Sector.

Nododd SG fod KRIC hefyd wedi defnyddio lens drawsnewidiol wrth ystyried cyfleoedd datblygu'r gweithlu. Rhaid i unrhyw ddatblygiadau data i gefnogi'r gwaith o gynllunio'r gweithlu a thrawsnewid gwasanaethau gynnwys canlyniadau, yn ogystal â gweithgarwch a rhifau sgrinio. Cadarnhaodd JW yr angen i barhau â chyd-gysylltedd ar draws y Pwyllgorau.

Camau Gweithredu: KE/SG/MM

Cwblhaodd MK ei adroddiad drwy roi diweddariad ar gyfraddau imiwneiddio. Tynnodd sylw at y duedd ar i lawr o ran derbyn y brechlyn ar gyfer MMR; roedd rhywfaint o amrywiad rhanbarthol yn amlwg yn y rhifau cyffredinol. Nid oedd rhesymau clir wedi eu nodi ynghylch y gostyngiad, ond gallai'r pwysau cyffredinol ar ofal sylfaenol fod yn ffactor. Roedd y Byrddau Iechyd wrthi'n ystyried ffyrdd o wyrdroi'r duedd hon.

Mynegodd SG ei phryder am y duedd barhaus ar i lawr, a gofynnodd am fanylion pellach am rolau a chyfrifoldebau perthnasol ar draws y system. Byddai hyn yn dod yn ôl i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2023.

Camau Gweithredu: MK

Yna, gofynnodd HG i RBW siarad, a soniodd wrth y Bwrdd am:

- Y ffaith y cwblhawyd 129 o adroddiadau digwyddiad ym mis Rhagfyr, gostyngiad o 53, gyda'r rhan fwyaf o'r achlysuron yn nodi dim niwed neu ychydig bach o niwed;
- Y gwelliant mewn perfformiad ar gyfraddau cau, gyda 66% wedi eu cau mewn 30 diwrnod;
- Y ffaith yr adroddwyd 118 o ddigwyddiadau ym mis Ionawr; roedd y rhain yn cynnwys digwyddiadau gwaddol ac roedd gwaith ar y gweill i ddatrys y rhain;
- Dim digwyddiadau y gellir eu hadrodd yn genedlaethol (NRI); bu un digwyddiad Dim Digwyddiad Annisgwyl, yn ymwneud â'r newid yn y data llwybr Sgrinio Serfigol. Roedd gwaith ar y gweill mewn perthynas ag unigolion sy'n byw ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr neu'n symud o Gymru i Loegr i sicrhau bod eu gwybodaeth sgrinio'n cael ei throsglwyddo'n gywir i system ddigidol GIG Lloegr;
- Rheoli cwynion: 100% yn cydymffurfio â'r targed ymateb cychwynnol a'r targed 30 diwrnod. Ni fu unrhyw gwynion ffurfiol ym mis Rhagfyr; bu naw cwyn anffurfiol. Roedd gwaith ar y gweill i benderfynu sut orau i gofnodi ac adrodd ar ganmoliaeth;
- Risg: roedd y gwaith o reoli'r risgiau strategol a chorfforaethol yn bwrw ymlaen yn dda ar lefel y Pwyllgor.

Gofynnodd HG a oedd unrhyw gwestiynau:

Gofynnodd NE am y ffaith bod y digwyddiad 'na fu'n syndod' yn cyfeirio at ddefnyddio'r System Rheoli Gwybodaeth Sgrinio Serfigol (CSIMS) a'r ddibyniaeth ar GIG Digidol, gan ofyn a fyddai unrhyw effaith ar y gwasanaeth yn sgil uno gwasanaethau digidol y GIG yn Lloegr sy'n digwydd ar hyn o bryd. Dywedodd MK fod y trafodaethau'n parhau rhwng GIG Digidol a Bron Brawf Cymru, er mwyn adolygu a phennu beth oedd yr effaith ac i nodi unrhyw gamau lliniaru sydd eu hangen.

Dywedodd MK hefyd, wrth drafod y materion trawsffiniol i fenywod a oedd wedi defnyddio gwasanaethau a thriniaethau yn Lloegr, er bod gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fecanwaith i drosglwyddo gwybodaeth yn ddiogel, ni allai'r system sy'n cael ei defnyddio yn Lloegr fewnforio'r wybodaeth yn ddiogel, ond mae gwaith yn dal i fynd rhagddo i ddatrys y mater. Gofynnodd JW i KRIC oruchwylio datrysiad y mater.

Camau Gweithredu: SG/IN/MK

Nododd y Bwrdd y diweddariadau, astudiodd y wybodaeth a ddarparwyd yn yr Adroddiad Perfformiad Integredig a **chafodd sicrwydd** gan yr Adroddiad a'r trafodaethau.

ICC 4.3/2023.01.26	Crynodeb o Bolisiau Corfforaethol (Diweddariad Chwemisol)	
Cyflwynodd LB yr Adroddiad Cydymffurfio Blynnyddol ar y Polisiau a'r Gweithdrefnau Corfforaethol. Roedd yr adroddiad a'r Gofrestr Polisiau Corfforaethol ategol yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar statws y polisiau Corfforaethol, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill ar draws y sefydliad. Ychwanegodd LB fanylion am effaith y pandemig ar y cynnydd sydd wedi ei wneud o ran adnewyddu a'r cynnydd sydd wedi ei wneud yn dilyn yr adroddiad. Nododd y Bwrdd yr Adroddiad a'r Gofrestr Polisiau Corfforaethol, a chafodd sicrwydd ynghylch y blaenoriaethu a'r cynnydd sydd wedi ei wneud i adolygu polisiau, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill, gan nodi rôl lefel y Pwyllgor wrth graffu ar adnewyddu polisiau perthnasol.		
ICC 4.4/2023.01.26	Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau	
Cafodd y Pwyllgor yr adroddiad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau, fe'i nodwyd a chafwyd sicrwydd yn sgil ei gynnwys.		
ICC 5/ 2023.01.26	Egwyl	
ICC 6/2023.01.26	Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	
Estynnodd JW groeso cynnes i Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a ymunodd â chyfarfod y Bwrdd ar gyfer y drafodaeth ar Dgangosfwrdd Trosolwg Cyflym Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cyn troi at yr agenda, gwahoddodd JW y Gweinidog i wneud unrhyw sylwadau rhagarweiniol. Diolchodd EM i staff Iechyd Cyhoeddus Cymru am eu cyngor a'u harweiniad arbenigol ar hyd y blynnyddoedd. Talodd deyrnged i waith caled ac ymroddiad y staff a'r Bwrdd ei hun; roedd ymateb Iechyd Cyhoeddus Cymru i bandemig COVID-19, gan gynnwys y gwaith dadansoddi, ymchwil, cyngor ac arweiniad arbenigol, diogelu a chadw golwg ar iechyd, profi ac arwain y rhaglen frechu, wedi bod yn hollbwysig, a mynegodd y Gweinidog ei diolchgarwch. Rhybuddiodd yn erbyn sylwadau bod COVID-19 'ar ben', a diolchodd i dîm Iechyd Cyhoeddus Cymru am fonitro amrywiolion yn barhaus a chadw'r gallu i brofi. Fe wnaeth y Gweinidog hefyd ganmol y sefydliad am safon dogfen IMTP 2022/25; o ddarllen y ddogfen, roedd wedi dod i ddeall yn glir ffocws Iechyd Cyhoeddus Cymru am y tair blynedd i ddod. Bu'r Gweinidog hefyd yn trafod y pwysau ehangach ar y system, a'r amgylchedd heriol i waith pob corff iechyd yng Nghymru. I roi arweiniad ar gyfer rownd IMTP 2023/26, roedd wedi nodi'r blaenoriaethau hyn: Datblygu perthynas agosach gyda llywodraeth leol er mwyn mynd i'r afael â'r mater o oedi wrth drosglwyddo gofal;		
Dyddiad: 26 Ionawr 2023	Fersiwn: Heb eu cadarnhau	Tudalen: 11 o 16

- Mynediad Gofal Sylfaenol a Chymunedol at wasanaethau;
- Gofal brys ac argyfwng;
- Gofal wedi'i Gynllunio, Adfer, Diagnosteg a Llwybrau Gofal;
- Gwella o Ganser;
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)

Yn sail i'r holl flaenoriaethau hyn, pwysleisiodd y Gweinidog werth a phwysigrwydd sylfaenol atal er mwyn gwella iechyd y boblogaeth a sicrhau gostyngiad mewn anghydraddoldebau iechyd. Adlewyrchodd ar y rôl allweddol y gallai Iechyd Cyhoeddus ei chwarae ar draws yr agenda, gan ddefnyddio'r Uned Gwyddorau Ymddygiadol i gefnogi a chynorthwyo pobl i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain yn well. Soniodd am y ffaith bod 500,000 o bobl ar restrau aros ar hyn o bryd, a chan hynny roedd cyfle i weithwyr iechyd proffesiynol Wneud Pob Cyfrif Cyswllt (MECC).

Diolchodd JW i'r Gweinidog am ei sylwadau caredig ac am ei sylwadau am y ffyrdd y gallai Iechyd Cyhoeddus Cymru gefnogi ei hagenda. Nododd JW y byddai IMTP 2023/26 yn cynnwys nifer o gamau perthnasol. Cyn dychwelyd at yr agenda, gwahoddwyd TC i ymateb i sylwadau rhagarweiniol y Gweinidog.

Diolchodd TC i'r Gweinidog am ymuno â chyfarfod y Bwrdd a chroesawodd ei ffocws ar werth hybu ac atal iechyd; roedd angen i bobl aros mor iach â phosib, gartref neu mewn lleoliad cymunedol, am gyn hired â phosib. I'r perwyl hwn, byddai angen mynediad at wasanaethau cymorth ataliol yn ogystal ag unigolion sy'n cymryd cyfrifoldeb personol am iechyd a lles. Cadarnhaodd TC fod gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ystod o gamau gweithredu eisoes ar waith i gefnogi pobl lle'r oeddent yn byw ac yn gweithio; roedd cyfleoedd pellach i gefnogi unigolion i gymryd cyfrifoldeb personol a chymdeithasol i wneud dewisiadau iach o fyw, gan gynnwys defnyddio arbenigedd gwyddorau ymddygiadol.

Yna, gwahoddwyd IB gan JW i wneud cyflwyniad ar y Dangosfwrdd Trosolwg Cyflym o Iechyd Cyhoeddus.

Roedd y cyflwyniad yn gyfle i'r Gweinidog ystyried yr ystod o wybodaeth sydd ar gael i lywio'r gwaith o reoli anghydraddoldebau a phenderfynyddion ehangach iechyd, gan ganolbwyntio ar yr Argyfwng Costau Byw. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu trefniadau i fonitro Dangosyddion Cyflym ac ymateb Iechyd Cyhoeddus Cymru i'r Argyfwng Costau Byw; roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â'r Trydydd Sector a datblygu sylfaen dystiolaeth gref.

Dangosodd IB sut y gwnaeth y dystiolaeth a gasglwyd o ystod o ffynonellau alluogi dadansoddiad o'r wybodaeth ar lefel fanwl iawn; roedd hyn yn cynnwys, er enghraifft, nad oedd 30% o boblogaeth Cymru yn bwyta ffrwythau a llysiau yn ddyddiol.

Diolchodd JW i IB am ei gyflwyniad manwl, a gofynnodd a oedd cwestiynau neu sylwadau gan y Bwrdd, cyn dychwelyd at y Gweinidog.

- Gofynnodd SG am fanylion pellach am farwolaethau gormodol o ddiabetes a pha mor isel oedd y niferoedd. Nododd IB y berthynas gyda marwolaethau tebyg eraill a chynghorodd fod gwybodaeth yn awgrymu cynnydd mewn niferoedd a fyddai'n parhau oni bai yr eir i'r afael â hyn. Cyfeiriodd at ei sylwadau cynharach ar y gwaith sydd ar y gweill trwy KRIC. Soniodd TC am y gwaith sy'n mynd rhagddo i ystyried y berthynas rhwng diweithdra hirhoedlog ac afiechydon fel diabetes.
- Nododd KY y cyfleoedd sydd i'w cael yn sgil rhagnodi cymdeithasol a defnyddio'r trydydd sector ac asiantaethau yn y gymuned i ledaenu negeseuon iechyd a lles a gwella cyfrifoldeb personol.
- Croesawodd MK y Dangosfwrdd, a soniodd mor bwysig yw mynd i'r afael ag aml i ffactor risg; fel enghraifft soniodd am y cynnydd mewn clefyd yr afu, yn gysylltiedig ag yfed alcohol a chlefydau heintus.
- Soniodd IB am benderfynyddion ehangach iechyd a'r cysylltiad rhwng iechyd gwael ac anghydraddoldeb incwm. Roedd nifer y bobl oedd yn wynebu pwysau ariannol yn cynyddu; roedd y gyfradd anweithgarwch economaidd yn dal i fod dros 25%. Roedd yn rhaid i gamau gweithredu ganolbwyntio ar liniaru'r effeithiau ar fyrder, gan ddylanwadu hefyd ar newid ymddygiad a lles dros amser.
- Nododd MK y cyfleoedd sydd yn sgil y rhaglenni sgrinio i gynyddu mynediad at gymorth lles a chyfleoedd ataliol. Roedd Canolfan Aberpennar, a agorwyd yn 2022, wedi bod yn boblogaidd ac yn effeithiol fel canolbwynt ar gyfer sgrinio a hybu iechyd; rhoddodd MK wybodaeth i'r Gweinidog am y cyfleuster arfaethedig nesaf yn Llantrisant.
- Soniodd KE am y 500,000 o bobl oedd ar restrau aros, a gofynnodd am y data sydd ar gael i dargedu'r rhai a fyddai'n elwa o gyngor ac arweiniad pellach o ran iechyd a lles, wrth iddyn nhw baratoi ar gyfer eu llawdriniaeth. Dywedodd IB fod data gwerthfawr ar gael gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r byrddau iechyd, gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn meddu ar ffynonellau data ychwanegol.
- Ymhelaethodd AJ ar fanylion ynghylch trafodaethau sydd eisoes yn digwydd gyda swyddogion polisi iechyd ar atal, ymyrraeth gynnar a 'cyn-sefydlu' i'r rhai ar restrau aros. Roedd hyn oll yn cyd-fynd â MECC ac yn rhan o ffocws cynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ofal iechyd cyhoeddus, a oedd yn cyd-fynd yn uniongyrchol ag agenda'r Gweinidog ac a fyddai'n cefnogi system iechyd a gofal cynaliadwy.

Diolchodd JW i bawb am eu sylwadau a gofynnodd i'r Gweinidog am ei sylwadau ar y Dangosfwrdd ac am y materion a godwyd.

Mewn ymateb, croesawodd y Gweinidog y drafodaeth a'r cyfle i ddysgu mwy am ffocws y Bwrdd a rôl glir Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth gefnogi ei meysydd blaenoriaeth. Gofynnodd i ddata gael eu rhannu'n rheolaidd er mwyn cynorthwyo ei gwaith cynllunio strategol, gan groesawu'n enwedig y sylfaen dystiolaeth gref a fu'n sail i drafodaethau.

Roedd y Gweinidog yn awyddus i ystyried cyfleoedd pellach i wella cyngor a chefnogaeth i'r rhai sydd ar restrau aros, gan ddefnyddio gwyddorau

ymddygiadol; croesawodd y cyfle i ehangu ar y drafodaeth yn ei chyfarfod nesaf gyda JW a TC

Camau Gweithredu: JW/TC

Wrth adael y cyfarfod, mynegodd y Gweinidog ei diolch eto i'r Bwrdd am y gwahoddiad i ymuno â'r cyfarfod; roedd y gwaith ar y gweill wedi creu argraff arni ac roedd hi'n edrych ymlaen at ddychwelyd i drafod datblygiad pellach y Dangosfwrdd.

ICC 7/2023.01.26

Y Trosolwg Diweddaraf o Iechyd Cyhoeddus

Trosolwg o Iechyd Cyhoeddus gyda ffocws ar yr Argyfwng Costau Byw: roedd yr eitem hon yn rhan o eitem Gweinidogol yr agenda, ac fe'i chofnodir o dan eitem 6.

Nododd y Bwrdd y diweddariad a ddarparwyd, a **chafodd sicrwydd** yn sgil y trafodaethau a oedd yn cynnwys y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan eitem 6.

ICC 8/2023.01.26

Eitemau i'w Cymeradwyo

ICC 8.1/2023.01.26

Adroddiad a Chynllun Gweithredu Twbercwlosis (TB)

Rhoddodd MK ddiweddariad ar yr Adolygiad Allanol o Achosion Twbercwlosis Llwynhendy. Rhoddodd gyflwyniad sleidiau a oedd yn trafod y materion hyn:

- O ran cyd-destun, roedd cyfraddau Twbercwlosis (TB) yng Nghymru yn isel, gyda chyfradd ddisgwyliedig o 2.8 fesul 100,000 o'r boblogaeth. Roedd achosion yn brin a chawsant eu hymchwilio gan wasanaethau microbioleg a diogelu iechyd.
- Nodwyd achos yn Llwynhendy am y tro cyntaf yn 2010; Roedd 3 achos gweithredol wedi'u nodi'n gyffredinol.
- Roedd adolygiad mewnol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2019 wedi argymhell comisiynu'r adroddiad allanol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Cafodd yr Athro Michael Morgan ei benodi'n Gadeirydd a chafodd ei gefnogi gan banel o arbenigwyr o'r tu allan i Gymru.
- Prif ffocws yr Adolygiad Allanol oedd: ystyried rheoli'r achosion; arfer gorau; adolygiad o'r achosion; effeithiolrwydd polisiâu; a manteisio ar gyngor arbenigol.
- Daeth yr adolygiad i ben ym mis Rhagfyr 2022. Nododd:
 - nifer fawr o achosion, yn rhai presennol byw ac yn rhai aneglur;
 - tystiolaeth o drosglwyddo yn sgil rhyngweithio cymdeithasol;
 - rhai methiannau wrth ailymweld â rhyngweithiau;
 - roedd y tîm gwreiddiol a reolai'r achosion wedi rhoi'r gorau i'r swyddogaeth honno'n rhy gynnar;
 - diffyg strategaeth TB cenedlaethol;

- cryn welliannau ers 2018.
- Gwnaed nifer o argymhellion i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd ac i sicrhau systemau effeithiol ac effeithlon.

Diolchodd JW i MK am ei ddarlun clir o'r cefndir i'r adolygiad allanol, a chanfyddiadau'r adolygiad allanol. Gan nodi sesiynau briffio blaenorol y Bwrdd ynghylch cynnal yr Adolygiad Allanol a'i ganfyddiadau, gofynnodd JW a oedd unrhyw sylwadau neu gwestiynau ar hyn o bryd.

Croesawodd SG y cyflwyniad, gan bwysleisio mor bwysig yw nodi rolau arweiniol clir wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu. Cadarnhaodd MK y byddai'r Cynllun Gweithredu yn nodi pob rôl o'r fath.

Camau Gweithredu: MK

Nododd y Bwrdd yr Adroddiad a'r Cynllun Gweithredu, a **chefnogodd** y trefniadau sicrwydd parhaus, drwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella; byddai'r Bwrdd llawn yn cael adroddiad diweddarau yn ddiweddarach yn 2023.

Wrth gloi'r cyfarfod, gwnaeth JW y datganiad a ganlyn:

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn estyn ein cydymdeimlad i bawb sydd wedi cael eu heffeithio gan yr achosion o Twbercwlosis sy'n effeithio ar ardal Llwynhendy, Sir Gâr ers 2010.

Mae'n amlwg nad oedd yr ymateb cychwynnol i'r achos hwn yn foddhaol. Mae'n ddrwg iawn gennym i unrhyw un a allai fod wedi cael eu heffeithio gan y digwyddiad hwn.

Mae rheoli achosion o TB mor gymhleth yn heriol oherwydd y rhwydweithiau cymdeithasol eang ac yn aml mae'r amserlenni dan sylw yn rhai estynedig. Mae'n galonogol bod yr adolygiad yn nodi bod yr arweinyddiaeth a'r rheolwyr wedi gwella'n sylweddol yng nghamau diweddarach yr achosion o TB ac ein bod yn parhau i weithio'n galed i gynnal ac adeiladu ar y safonau hyn. Rydym wedi derbyn argymhellion yr adolygiad yn llawn ac wedi datblygu cynllun gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael â nhw.

ICC 8.2/2023.01.26

Cofnodion a Chofnod o Gamau Gweithredu o Gyfarfod y Bwrdd (24 Tachwedd 2022)

Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion o gyfarfod 24 Tachwedd 2022. Fe wnaeth y Bwrdd hefyd **nodu** a **chymradwyo'r** Cofnod o Gamau Gweithredu.

ICC 9/2023.01.26

Eitemau i'w Nodi

ICC 9.1/2023.01.26

Adroddiad y Cadeirydd (24 Tachwedd 2022)

Cafodd y Bwrdd adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd ynglŷn â'r materion a ystyriwyd yng nghyfarfod preifat y Bwrdd ar 24 Tachwedd 2022, ac fe'i **nodwyd**.

ICC 9.1/2023.01.26 Blaengynllun 2022-23

Cafodd y Bwrdd Flaengynllun Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2022-23, a **chafodd sicrwydd** yn ei sgil.

ICC 10/2023.26.01 Dyddiad Cyfarfod Ffurfiol Nesaf y Bwrdd

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd ar **30 Mawrth 2023**.

ICC 11/2023.26.01 Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus

Cyn dod â'r cyfarfod i ben, mynegodd JW ddiolch ar ran y Bwrdd i SA a LB am ddod i gyfarfod y Bwrdd yn eu priod rolau.

Llongyfarchodd JW hefyd Sian Griffiths ar dderbyn CBE yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd, ynghyd â Fliss Bennee, a dderbyniodd OBE. Estynnodd cydweithwyr eu llongyfarchiadau diffuant i'r ddau.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.04pm

HEB EU CADARNHAU